HSC(6)-02-22 PTN 25


**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

—

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565


Alexandra Howells
Prif Weithredwr
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Sue Evans
Prif Weithredwr
Gofal Cymdeithasol Cymru

14 Gorffennaf 2022

Annwyl Alexandra a Sue

Cynllun gweithlu iechyd meddwl: diweddariad

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i anghydraddoldebau iechyd meddwl. Yn ystod ein hymchwiliad, mae nifer o faterion wedi dod i'r amlwg o ran y gweithlu iechyd meddwl a'r gweithlu ehangach.

Er mwyn llywio ein gwaith, byddem yn croesawu cael diweddariad ar ddatblygu'r cynllun gweithlu iechyd meddwl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion a godir yn yr atodiad erbyn 1 Medi 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: cais am dystiolaeth ysgrifenedig

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i anghydraddoldebau iechyd meddwl. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn ystod ein gwaith ar gael ar we dudalen yr ymchwiliad.

Mae nifer o faterion yn dod i'r amlwg o ran y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys pryderon am ddiffyg capasiti, llesiant y gweithlu iechyd meddwl a'r gweithlu ehangach, a diffyg ymwybyddiaeth a hyfforddiant o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn dilyn eich ymgynghoriad diweddar ar gynllun gweithlu iechyd meddwl ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cynllun, gan gynnwys:

1. Sut y bydd y cynllun yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl, gan gynnwys y materion a amlinellir uchod.
2. Sut y bydd y cynllun hwn, a'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Hydref 2020) ehangach, yn sicrhau bod y gweithlu iechyd meddwl (a'r gweithlu ehangach) yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu.
3. Pryd y caiff y cynllun ei gyhoeddi, ac a ydych yn fodlon rhoi copi ymlaen llaw i ni yn gyfrinachol.
4. Pa agweddau ar y cynllun yr ydych yn rhagweld y byddant yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu gweithredu.
5. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r staff a'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i ddarparu'r cynllun, ac a oes digon o adnoddau ar gael.
6. Sut y caiff cynnydd o ran darparu'r cynllun ei fesur a'i nodi.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn anfon eich ymateb erbyn 1 Medi 2022.